# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Mehefin 2017
# i'w hateb ar 4 Gorffennaf 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trafodaethau a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â lleoli carchar newydd ym Maglan? OAQ(5)0702(FM)

**2. Nick Ramsay (Mynwy):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gydnabod yr heriau ychwanegol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig o ran dyrannu cyllid llywodraeth leol? OAQ(5)0697(FM)

**3. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd o ran diwygio llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(5)0698(FM)

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at gynnyrch tybaco yng Nghymru? OAQ(5)0695(FM)

**5. Jeremy Miles (Castell-nedd):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr? OAQ(5)0710(FM)**W**

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd llwyddiant ym myd chwaraeon o ran hyrwyddo Cymru i'r byd? OAQ(5)0694(FM)

**7. Hefin David (Caerffili):** Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i weithredu argymhellion Adroddiad y Tasglu Model Cyflenwi Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 2 Chwefror 2017? OAQ(5)0703(FM)

**8. Vikki Howells (Cwm Cynon):** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem o fod yn llwglyd yn ystod y gwyliau ymysg plant ysgol yng Nghymru? OAQ(5)0706(FM)

**9. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol masnachfraint reilffordd Cymru a'r Gororau? OAQ(5)0708(FM)

**10.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r rheoliadau adeiladu yn sgil trychineb Tŵr Grenfell? OAQ(5)0707(FM)

**11.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyd-adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(5)0711(FM)

**12.** **David Melding (Canol De Cymru):** Beth yw blaenoriaethau'r Prif Weinidog o ran datblygu economaidd yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0700(FM)

**13.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth yw blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro dros y deuddeg mis nesaf? OAQ(5)0696(FM)

**14.** **Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllido addysg uwch yng Nghymru? OAQ(5)0704(FM)**W**

**15.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ad-drefnu'r strategaeth economaidd yng Nghymru i sicrhau nad yw ardaloedd gwledig ar eu colled o ganlyniad i'r ffocws ar Fargeinion Dinesig? OAQ(5)0701(FM)